

10fed o Dachwedd 2022

Annwyl Riant/ Gwarcheidwad,

Rydym o'r farn fod prydlondeb yn ofyniad pwysig ac hanfodol i gymryd rhan lawn yn mywyd yr ysgol yn ogystal â bod yn wers bywyd pwysig i'w dysgu ar gyfer y dyfodol. Mae disgwyl i bob disgybl fod yn yr ysgol bob dydd erbyn 8:30yb, ac mae prydlondeb yn cael ei fonitro bob dydd gyda chanlyniadau i ddilyn ar gyfer disgyblion sy'n rheolaidd yn hwyr. Yn anffodus, mae nifer fach o'n disgyblion yn hwyr i wersi yn rheolaidd, tra bod y mwyafrif o ddisgyblion yn wych ac yn brydlon i wersi.

Petai disgybl 5 munud yn hwyr i bob gwrs am wythnos, byddai hynny'n golygu eu bod wedi colli 150 munud o addysg, sy'n cyfateb i 3 gwrs lawn mewn wythnos. Dwi'n siŵr byddech chi'n cytuno nad yw hyn yn dderbyniol gan fod disgyblion yn colli allan ar ddysgu eu hunain, ond yn ogystal â hynny, yn amharu ar lif y wers wrth gyrraedd yn hwyr.

Yn yr un modd mae'r disgyblion hynny sydd â phresenoldeb isel mewn ysgol, yn colli allan ar eu haddysg ac mae strategaethau presenoldeb 'cyn covid' bellach yn ôl yn eu lle, sy'n cynnwys hysbysiadau o gosb (dirwy) a chamau llys i rai nad ydynt yn mynychu yn rheolaidd.

Felly byddwn yn cymryd y camau canlynol i geisio gwella prydlondeb disgyblion yn yr ysgol. Er mai'r lleiafrif sy'n hwyr yn rheolaidd, teimlwn ei bod yn bwysig gweithredu'r canlynol yn gyson i bawb.

- Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd prydlondeb da yn ystod sesiynau tiwtor boreol a gwasanaethau
- Monitro prydlondeb ym mhob gwrs, gyda staff yn cofnodi bob tro y mae disgybl dros 5 munud yn hwyr i unrhyw wers heb reswm dilys/awdurdodedig gan aelod arall o staff.
- Atgoffa disgyblion nad ydynt i ddefnyddio'r tai bach rhwng gwrsi gan y gall hyn ddod yn faes 'cymdeithasu' poblogaidd. Os oes angen i ddisgybl ddefnyddio'r tŷ bach, dylent geisio mynd ar amseroedd egwyl a chinio neu fynychu'r wers yn gyntaf.
- Canlyniadau cyson i ddisgyblion sy'n rheolaidd yn hwyr (gweler isod)

Canlyniadau am ddiffyg prydlondeb rheolaidd:

- Os yw disgybl yn derbyn 3 neu'n fwy o farciau 'hwyr' (heb reswm dilys/awdurdod) yn ystod wythnos, bydd disgwyl iddynt aros tan 4yh am un sesiwn ar ôl ysgol. Os ydy disgybl yn derbyn 6 marc 'hwyr' o fewn wythnos, fe fyddan nhw'n aros am ddwy sesiwn ar ôl ysgol ac yn y blaen. Byddwn yn rhoi gwybod i rieni am hyn.
- Bydd diffyg prydlondeb rheolaidd yn gofyn am gyfarfod riant/gwarcheidwad yn yr ysgol i drafod strategaethau ar gyfer atal digwyddiadau pellach.



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

swyddfabryntawe5@hwb.cymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



**BUDDSODDWYR
MEWN POBL** | Aur



Fel rhieni a gwarcheidwaid, a fyddai modd i chi siarad gyda'ch plentyn/plant am yr uchod os gwelwch chi'n dda a'u hatgoffa o bwysigrwydd prydlondeb da a phresenoldeb uchel?

Gwerthfawrogwn eich cefnogaeth gyda'r uchod.

Yn gywir

Mark Bridgens

(Pennaeth Cynorthwyol)



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

swyddfabryntawe5@hwbcymru.net

www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



BUDDSODDWYR | Aur
MEWN POBL

